# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-18-00(p2)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29 Tachwedd 2000, 2:00pm – 5:30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **AWDURDOD DATBLYGU CYMRU: Adolygiad Hanner Blwyddyn yn erbyn Targedau Strategol**<br><br>(Papur gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) |

**Diben a Gweithredu**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi cefndir Adolygiad Hanner Blwyddyn Awdurdod Datblygu Cymru i'r Pwyllgor (*Atodiad A*).

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod i gyrraedd y targedau strategol yn yr Adolygiad Hanner-Blwyddyn.

3. Bydd swyddogion y WDA yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor er mwyn cyflwyno'r Adolygiad Hanner Blwyddyn ac i ateb cwestiynau. Y swyddogion fydd:-

- Syr David Rowe-Beddoe - Cadeirydd
- Graham Hawker – Prif Weithredwr
- Graham Moore – Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi Strategol; a
- Richard Beaumont – Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol a Chyllid

**Cefndir**

4. Mae Adolygiad Hanner Blwyddyn y WDA (*Atodiad A*) yn nodi yr hyn a gyflawnwyd gan yr Awdurdod yn erbyn ei dargedau strategol yn ystod chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2000-2001. Cyhoeddwyd y targedau hyn gan Brif Weinidog Cymru mewn datganiad ysgrifenedig ar 14 Mehefin 2000, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor ar 14 Mehefin 2000 (EDC-04-00).

5. Mae targedau strategol y WDA ar gyfer 2001 a thu hwnt yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd fel eu bod yn fwy cydnaws â'r targedau yn www.gwellcymru.com. Mae hyn yn debygol o arwain at newid y modd y caiff perfformiad yr Awdurdod ei fesur.

**Crynodeb**

6. Mae rhan gyntaf y ddogfen yn amlinellu rhai o brif gyflawniadau'r Awdurdod yn y flwyddyn hyd yma, gan gynnwys projectau unigol, o dan benawdau blaenoriaethau www.gwellcymru.com. Yna ceir disgrifiad o berfformiad yr Awdurdod ranbarth wrth ranbarth.

7. Yn Atodiad 1 ceir tabl sy'n nodi i ba raddau y llwyddodd yr Awdurdod i gyrraedd y targedau yn y flwyddyn hyd yn hyn.

**Ystyriaeth**

8. Bydd y Pwyllgor am nodi fod y WDA ar y ffordd i gyrraedd y rhan fwyaf o'i dargedau ar gyfer 2000-2001.

9. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys nifer y swyddi a grewyd/diogelwyd drwy Raglenni Datblygu Busnes a Chyfalaf yr Awdurdod, a nifer y swyddi a grewyd/datblygwyd yn ardal Amcan 1. Disgwylir y bydd y WDA yn pasio'r targedau hyn.

10. Ond efallai y bydd peth newyddion drwg, fodd bynnag, am nad yw'r Awdurdod yn hyderus y bydd yn gallu cyrraedd ei dargedau ar gyfer mewnfuddsoddi a buddsoddiad yn y sector preifat.

**Cydymffurfio**

11. Sefydlwyd y WDA gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru). Cafodd pwerau eu trosglwyddo o dan y Ddeddf honno i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'i staff. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb. Mae Swyddog Cydymffurfio y Cynulliad yn fodlon.

**Goblygiadau Ariannol**

12. Caiff y costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r WDA yn ystod y flwyddyn ariannol hon eu talu o ddarpariaeth gyllidebol bresennol y WDA. Mae'r gyllideb ddrafft a gaiff ei chyhoeddi ar 19 Hydref yn cynnwys gwariant arfaethedig y WDA ar gyfer bob un o'r 3 blynedd ariannol nesaf. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol a nodwyd nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn deillio o hyn.

## AWDURDOD DATBLYGU CYMRU

## TARGEDAU STRATEGOL 2000/2001: ADOLYGIAD HANNER -BLWYDDYN AR GYFER Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL, MEDI 2000

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynnydd yr Awdurdod o gymharu â'r Targedau Perfformiad a gytunwyd yng Nghynllun Busnes 2000/2001. Mae'r tabl amgaeëdig (Atodiad 1) yn nodi targedau strategol y Cynulliad a chyflawniadau'r Awdurdod am y flwyddyn hyd yma. Mae'r tabl yn cynnwys y targedau yn ôl rhaglenni ar gyfer swyddi a buddsoddiad sector preifat, ac yn ôl ardaloedd NUTs II: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Mae'r Awdurdod ar y cwrs i gyflawni'r Targedau Strategol a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r naratif yn cynnwys crynodeb o'r cyflawniadau o gymharu â blaenoriaethau Gwellcymru.com..

Mae'r Awdurdod wedi cyfrannu'n sylweddol at y broses gynllunio yn gysylltiedig â Chronfeydd Strwythurol Amcan Un drwy fewnbwn sylweddol i'r Ddogfen Rhaglennu Sengl a'r Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol a Chymru-gyfan. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Uned Cronfeydd Strwythurol i gefnogi Partneriaethau Amcan Un ac yn arwain mewn saith maes rhaglen.

### Crynodeb

Sicrhawyd buddsoddiad gwerth ychwanegol uchel drwy weithgareddau newydd a sefydledig, yn arbennig yn y sectorau modurol a lled-ddargludyddion:

- Agilent Technologies fydd y 'tenant angor' yng nghanolfan Technium Abertawe, yn canolbwyntio ar ymchwil a datblygu mewn technoleg lled-ddargludyddion

- Agorwyd Canolfan Dysgu Uwch a Thwnnel Gwynt Hinsoddol pen eithaf y grefft yng Nghanolfan Dechnegol Ewropeaidd Calsonic yn Llanelli
- Ehangodd DPS Composites sy'n cyflenwi'r diwydiant rasio modur Fformiwla Un i greu 160 o swyddi yn Noc Penfro
- Lansiwyd @Wales, menter Cyfryngau Digidol Cymru, ym Mae Caerdydd i gefnogi cwmnïau newydd a datblygol
- Buddsoddiadau gan NTL, HSBC a Manpower Services mewn tair canolfan gwasanaeth cwsmeriaid pen eithaf y grefft yng ngorllewin Cymru
- Lansiwyd rhaglen Sbardun Cymru mewn partneriaeth gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Fforwm Modurol i roi cefnogaeth gynhwysfawr i'r sector modurol
- Sefydlodd SPX Contech gyfleuster newydd yn Y Trallwng i gynhyrchu cydrannau llywio a phwer-waith
- Buddsoddodd General Domestic Appliances £26 miliwn ym Mharc Kinmel, gan ddiogelu dros 1,000 o swyddi yng Ngogledd Cymru
- Lansiwyd rhaglen SmE-Fusnes i gynorthwyo busnesau cynhenid i wneud defnydd effeithlon o Dechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cefnogaeth gref i ychwanegu gwerth i gynnyrch bwyd drwy raglenni arloesedd ffermio a buddsoddiad newydd gan Gaws Dyffryn Aeron yn Felinfach
- Sefydlwyd Cyllid Cymru Ccc yn llwyddiannus a throsglwyddwyd Cronfeydd a Rhaglenni Buddsoddi'r Awdurdod i'r corff newydd.

Arweiniodd cefnogaeth uniongyrchol i gwmnïau gan yr Awdurdod at i fusnesau yng Nghymru sicrhau gwerth dros £17 miliwn o werthiant newydd, sydd eisoes yn rhagori ar y targed am y flwyddyn.

Cyrhaeddodd nifer y swyddi a gefnogwyd mewn cwmnïau brodorol cynhenid drwy gefnogaeth busnes a phrosiectau cyfalaf 5,459, ychydig dros 50% o'r targed blynyddol.

O'r rhain, cafodd 3,660 o swyddi eu creu neu eu diogelu mewn cwmnïau cynhenid yn cymryd rhan yn rhaglenni'r Awdurdod i gefnogi datblygiad cadwyn cyflenwi, i gyflwyno arloesedd a thechnoleg a gweithgaredd arall megis cynlluniau Bwyd-amaeth.

Mae'r fantol rhwng swyddi a ddiogelwyd a swyddi newydd wedi newid. O'r cyfanswm swyddi a gefnogwyd mewn cwmnïau cynhenid, dengys amcangyfrifon hanner blwyddyn tra fod 14% o'r swyddi yn newydd yn 1999/2000, fod swyddi newydd yn 2000/2001 yn cynrychioli 25% o'r cyfanswm hyd yma.

Mewn marchnad anodd gyda chyfraddau cyfnewid uchel yn effeithio'n arbennig arni, bydd buddsoddiad o dramor yn creu 930 o swyddi, 37% o'r targed. Sicrhaodd mewnfuddsoddiad gyfanswm buddsoddiad cyfalaf cysylltiedig o £44 miliwn a 3,735 swydd.

Mae'r Cynulliad wedi gosod targed heriol i'r Awdurdod eleni y dylai 12,500 o'r cyfanswm o 19,000 swydd (h.y. 65%) gael eu lleoli yn rhannau gorllewinol Cymru a'r Cymoedd. Ar y pwynt hanner blwyddyn roedd dros 6,300 o swyddi (69%) o'r cyfanswm eisoes wedi eu creu neu eu diogelu o

gymharu â 2,831 (31%) yn y dwyrain.

**Uchafbwyntiau**

**Cyfranogiad: Cynyddu nifer y swyddu a gwella eu hansawdd a lleihau diffyg gweithgarwch economaidd, yn arbennig mewn ardaloedd llai llewyrchus (*Betterwales.com)***

*Rhaglenni Cyfranogiad a Menter*

Rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol i Cyswllt Busnes, y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth a rhaglenni megis y Cynlluniau Lleoliad Graddedigion a rhaglenni Cydraddoldeb SME. Roedd y prosiectau allweddol yn cynnwys partneriaeth WDA gyda Cyswllt Busnes a Chwarae Teg i drefnu cyfres o weithdai yn y Canolbarth i annog mwy o ferched i ddilyn cyrsiau hyfforddiant ac addysg, a datblygu mentrau newydd.

Trosglwyddwyd Cronfeydd Buddsoddiad a Rhaglenni Adran Rhaglenni Cyllid y WDA i Cyllid Cymru Ccc. Yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i'r WDA, mae Cyllid Cymru yn darparu amrediad helaeth o gronfeydd buddsoddi a rhaglenni cefnogaeth rheolaeth, yn ôl ymchwil gan Ysgol Fusnes Caerdydd 'un o'r gyfres fwyaf helaeth a chynhwysfawr o gynnyrch ariannol sydd ar gael ar lefel ranbarthol unrhyw le yn Ewrop'.

*Mewnfuddsoddiad*

Mae Atodiad 2 yn rhestru'r prosiectau a ddenwyd i Gymru hyd yma. Yng nghyswllt y dosbarthiad rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, cafodd £33 miliwn o fuddsoddiad sector preifat (74%) a 2,959 o swyddi (80%) eu cynhyrchu neu eu cynnal yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â thargedau diwedd blwyddyn o 57% ar gyfer buddsoddiad sector preifat a 71% ar gyfer swyddi, gan ddangos yr effaith ar ardaloedd Amcan Un.

**Marchnata rhyngwladol: codi proffil rhyngwladol a dylanwad Cymru (*Gwellcymru.com*)**

Cynhaliwyd rhaglenni marchnata grymus dramor i gynnal y llif prosiectau newydd sy'n wynebu pwysau ar hyn o bryd o newidiadau yn y farchnad fewnfuddsoddiad wrth iddi symud ymaith o brosiectau gweithgynhyrchu graddfa-fawr traddodiadol.

Mae'r prosiectau sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd yn cymharu â rhai y llynedd yn nhermau nifer swyddi. Cynhaliwyd ymgyrchoedd hyrwyddo cryf i gefnogi gwaith yr Awdurdod, yn arbennig yn nhermau cyhoeddi canlyniadau a buddsoddiadau unigol ac i gefnogi rhaglenni newydd: fideo mewn-taith newydd, hyrwyddo sectorau Modurol ac Aerofod Cymru, a Thwrnamaint Golff Agored Cymru.

Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cynhadledd fodurol bwysig a gynhelir mewn cysylltiad â Rali

Network Q a bu ymgyfraniad agos gyda'r cynnig i noddi Twrnamaint Golff Cwpan Ryder yn 2009.

**Gwerth Ychwanegol: Creu economi blaengar, cystadleuol a mwy amrywiol, a chanddo sector busnesau bach a chanolig deinamig .(*Betterwales.com)***

*Datblygiad Cystadleuol*

Mae rhaglenni'n cynnwys datblygiad cadwyn cyflenwi i wella cynhyrchiant a chefnogaeth i gymhwyso arloesedd a thechnoleg. Prif thema'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2001-2004 yw annog creu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth yng Nghymru.

Gyda chefnogaeth y Cynulliad, dyblwyd y nifer o Gynghorwyr Arloesedd a Thechnoleg sy'n rhoi cyngor arbenigol i helpu cwmnïau bach a chanolig i fabwysiadu arferion mwy arloesol.

Lansiwyd rhaglen smE-Fusnes Cymru i roi gwybodaeth a chefnogaeth uniongyrchol i fwy na 10,000 o gwmnïau bach a chanolig i gynyddu gallu cystadleuol drwy gymhwyso technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Sicrhawyd buddsoddiad cryf ym mhen gwerth ychwanegol uchel y sector modurol, ymchwil a datblygu mewn lled-ddargludyddion a sefydlu canolfannau gwasanaeth cwsmer min arweiniol:

Agor Canolfan Dysgu Uwch a Thwnnel Gwynt Hinsoddol pen-eithaf-y-grefft yng Nghanolfan Dechnoleg Ewropeaidd Calsonic yn Llanelli.

Cyhoeddodd SPX Contech ehangiad ei ddarpariaeth gweithgynhyrchu cydrannau byd-eang drwy sefydlu cyfleuster newydd yn Y Trallwng, Powys i gynhyrchu cydrannau llywio a phwer-waith alwminiwm;

Mae Hitachi Cable, y cwmni modurol blaenllaw o Japan, wedi ymsefydlu yn hen waith llywio grym Lucas Varity yng Nglyn Ebwy ac yng Ngogledd Cymru..

Bydd Tokai Rika yn buddsoddi dros £6 miliwn mewn cyfleuster i gynhyrchu switshis.

Lleolodd Agilent, y cwmni ymchwil lled-ddargludyddion blaenllaw o Galiffornia, ei bencadlys Prydeinig yn Abertawe. Bydd y cwmni'n cynllunio a phrofi'r datblygiadau diweddaraf mewn gwyddoniaeth a thechnoleg cyfathrebu. Ystyrir fod y buddsoddiad hwn yn braenaru'r tir ar gyfer cwmnïau uwch-dechnoleg byd-eang eraill i greu labordai ymchwil a datblygu.

**Datblygiad Ardal Strategol**

*Isadeiledd*

Mae rhaglenni isadeiledd busnes yn cynnwys datblygiad safleoedd strategol, buddsoddiad mewn

isadeiledd telegyfathrebu a darpariaeth adeiladau parod. Mae'r prosiectau allweddol a aeth rhagddynt yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn cynnwys lansio partneriaeth sector cyhoeddus/ preifat rhwng y WDA, BP Amoco a Chyngor Sir Castell-Nedd Port Talbot a Sefydliad y Tywysog i drawsffurfio hen safle purfa olew yn Llandarsi yng ngorllewin Cymru i greu pentref trefol 'cynaliadwy'. Disgwylir i'r datblygiad greu dros 2,000 o swyddi a sicrhau buddsoddiad o £500 miliwn dros gyfnod o ugain mlynedd a darparu tua 1,800 o gartrefi newydd.

*Adfywio a Thir*

Ar 1 Ebrill 2000 daeth y Gyfadran Tir yn gyfrifol am asedau portffolio gweddilliol cyn Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Mae'r Awdurdod ar darged i gynhyrchu'r derbyniadau a ofynnir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Yn dilyn y caffaeliad mae'r Gyfadran wedi bod yn marchnata a gwaredu'r asedau hynny sydd hyd yma wedi cynnwys y Custom House, Penarth; tir yn Nociau Graving ac Adeilad y Gyfnewidfa yn Sgwâr Mount Stuart.

Roedd gwaredion eraill yn cynnwys gwerthiant cyn swyddfeydd Cyngor Sir Morgannwg Ganol yn Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd a urddwyd i Gorff Gweddilliol Cymru gan ddosbarthu'r derbyniadau ymysg cynghorau Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr.

Daethpwyd â safleoedd tai arall i'r farchnad yng Nghaerllion ger Casnewydd, Dinbych ac yng Ngogledd Pentwyn, Caerdydd.

Mae'r caffaeliadau disgwyliedig yn cynnwys hen Felinau Papur Trelai yng Nghaerdydd a thir yn Ffordd Shotwick, Glannau Dyfrdwy a fedrai roi safle pwysig ar gyfer cyflogaeth. Mae Ffordd Shotwick ar hyn o bryd yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol a ddechreuodd ym mis Medi lle mae'r Awdurdod yn hyrwyddo'r safle gyda chefnogaeth Cyngor Sir y Fflint.

Mae'r gweithiau isadeiledd pwysig sydd i ddechrau yn cynnwys gweithiau ym Mharc Busnes Rhiwabon, Wrecsam, cyn safle Hotpoint yng Nghyffordd Llandudno a Brocastell ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**Gweithgaredd Gwledig**

Lansiodd Cyswllt Busnes a Chyfadran Canolbarth Cymru yr Awdurdod wobr adwerthwyr newydd i hyrwyddo menter mewn siopau bach yng Nghymru wledig. Noddodd y Gyfarwyddiaeth Fwyd Ffair Ffermio gyda'r nod o ddod â theuluoedd ffermio ynghyd i gael gwybodaeth am ddatblygiadau newydd yn y diwydiant amaethyddol, gwell dulliau ffermio ac ychwanegu gwerth i'w cynnyrch presennol.

Cofnododd y rhaglen Graddedigion yn Golygu Busnes, sy’n rhoi cymorth ymarferol ar sefydlu busnes i raddedigion yn byw yn y Canolbarth, fod chwech o gyfranogwyr wedi dechrau eu busnesau eu hunain yn llwyddiannus ers lansio'r rhaglen.

Gwelwyd ehangiad sylweddol mewn dau gwmni yn seiliedig yn Aberhonddu, Brooke Thompson a Beacon Foods, a arweiniodd at greu a diogelu 194 o swyddi yng Nghymru. Agorodd Caws Dyffryn Aeron ei waith cynhyrchu a storio caws newydd yn Felinfach, gan roi hwb pwysig i ffermwyr llaeth yr ardal a chreu 65 o swyddi newydd.

**Uchafbwyntiau Rhanbarthol**

*Gogledd Cymru*

Mae prosiectau allweddol a orffennwyd yn yr hanner blwyddyn wedi cynnwys uned 100k tr sg sbeciannol yng Nglannau Dyfrdwy gyda'r potensial i ddenu 150 o swyddi a buddsoddiad cyfalaf o ryw £3 miliwn. Cynyddwyd cefnogaeth i ardaloedd gwledig drwy sefydlu'r rhaglen Cefnogaeth Rhwydwaith Peirianneg Fferm sydd eisoes wedi diogelu a chreu 163 o swyddi.

Mae General Domestic Appliances, rhiant gwmni Hotpoint, un o gyflogwyr mwyaf Gogledd Cymru, wedi diogelu dros 1,000 o swyddi drwy fuddsoddi £26 miliwn i greu amrediad o beiriannau golchi ansawdd uchel. Enillwyd y cyfleuster cynhyrchu pen eithaf y grefft hwn ym Mharc Cinmel yn wyneb cystadleuaeth o Ddwyrain Ewrop.

*Canolbarth Cymru*

Mae perfformiad y gyfadran, yn nhermau gweithgaredd a gyflawnwyd hyd yma a'r rhagolygon, ar gyfer swyddi a buddsoddiad sector preifat yn galonogol. Mae'r prif gynlluniau cyfalaf i wneud cyfraniad sylweddol i'r targedau strategol yn cynnwys estyniad pwrpasol ar gyfer Caws Dyffryn Aeron, Felinfach, lesu uned i'r Burger Company, Llanfair ym Muallt a lesu uned i Nimbus Foods, Dolgellau.

Yn ychwanegol, mae rhaglenni Datblygu Busnes y Gyfadran, megis Cyswllt Busnes, yn parhau i fod â rhan bwysig yn nhermau perfformiad allbwn strategol.

Y prif gynllun cyfalaf sydd i'w orffen yn ail hanner y flwyddyn yw prosiect isadeiledd Adran 10 i hwyluso gwell isadeiledd trydan i Flaenau Ffestiniog. Bydd y cynllun yn arbed o leiaf 250 o swyddi ac yn rhoi'r potensial ar gyfer creu nifer sylweddol o swyddi newydd yn yr ardal drwy ryddhau tir ychwanegol ar gyfer datblygiad.

*De Orllewin*

Mae uchafbwyntiau hanner cyntaf y flwyddyn yn cynnwys buddsoddiadau gan NTL, HSBC a Manpower Services mewn tair canolfan gwasanaeth cwsmeriaid pen eithaf y grefft, gan greu dros 1,200 o swyddi rhyngddynt. Ehangodd DPS Composites sy'n cyflawni'r diwydiant rasio modur Fformiwla Un uned barod yn Noc Penfro gan greu 160 o swyddi a buddsoddiad o £0.75 miliwn. Creodd 3M 107 o swyddi a diogelu 63 arall gyda buddsoddiad o £2.7 miliwn yn eu gwaith yng

Ngorseinon. Yn ychwanegol creodd Athlons, gwneuthurydd esgidiau o Dsieina, 141 o swyddi pan sefydlwyd eu busnes yn Stad Ddiwydiannol Thornton yn Aberdaugleddau. Gwelodd Canolfan Technium hefyd fuddsoddiad cyffrous Agilent Technologies.

*De Ddwyrain*

Sefydlwyd @Wales, cynllun Cyfryngau Digidol Cymru, i gefnogi cwmnïau newydd a datblygol yn y sector aml-gyfrwng twf uchel. Darperir cyfleusterau swyddfa, cyrchedd rhyngrwyd lled band uchel, gofod rac a serfwyr i gwmnïau deorfa yn adeilad @Wales ym Mae Caerdydd. Bydd hefyd gefnogaeth gan arbenigwyr Technoleg Gwybodaeth, Busnes, Marchnata ac ati.

Dechreuodd rhaglen Sbardun Cymru yn dilyn ymgynghoriadau eang gyda'r sector modurol a chymeradwyo cyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol. Dyma'r Rhaglen Datblygu Busnes helaeth a chynhwysfawr gyntaf i'w chynllunio gan y cwmnïau yn y sector, dan nawdd Fforwm Fodurol Cymru, a chaiff hefyd ei chyflwyno drwy'r prif gwmnïau yn y sector.

Parc Cleppa, Casnewydd Cytunwyd ar y prif delerau rhwng y WDA/Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd/Prifysgol Caerdydd ar gyfer cyd-fenter gyda Morrison Development Cyf am ddatblygiad 45 erw dros gyfnod, fel parc gwyddoniaeth/busnes cymysg, yn cynnwys cymhlyg gwesty, yn unol â chynllun a gytunwyd gyda phartneriaid cydfenter. Morrison's i ddarparu £1.5m o isadeiledd a cham cyntaf 60k tr sg o adeilad swyddfa pencadlys sbeciannol. Caiff y camau dilynol eu datblygu o fewn 5 mlynedd. Amcangyfrifir y medrai'r WDA dderbyn £2.5m dros bum mlynedd. Bydd y safle hwn, ynghyd â Cham II Ty Imperial gerllaw, yn rhoi cyfle pwysig i ddenu cwmnïau uwch dechnoleg twf uchel i Dde Cymru.

Mae denu One 2 One i Ferthyr Tudful, gan sicrhau bron i fil o swyddi, yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth oedd eu mawr angen yn yr ardaloedd difreintiedig yn ac o amgylch Merthyr. Mae One 2 One yn seiliedig ar Barc Busnes Rhydycar, a ddatblygwyd fel rhan o'r strategaeth tymor hir rhwng y WDA a'r awdurdod lleol i gyflwyno safleoedd cyflogaeth ansawdd uchel o fewn y Bwrdeistref.

Mae rhaglen Amgylchedd Gweithio dros Fusnes yn mynd rhagddo'n dda yn ardaloedd peilot Merthyr Tudful a Blaenau Gwent ac mae cyfle y caiff ei ehangu yn fuan i Ben-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Thorfaen. Medrid ehangu cwmpas y rhaglen pe sicrheid arian Amcan Un.

## ATODIAD 1

### AWDURDOD DATBLYGU CYMRU

### ADRODDIAD TARGEDAU STRATEGOL 2000-2001 AR GYFER Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

### FEL YM MEDI 2000

| | 2000/2001 | BHY |
|---|---|---|

| | | Targed | Union |
|---|---|---|---|
| | **SWYDDI A GEFNOGWYD** | 19,000 | 9,194 |
| | | | |
| | Datblygu Busnes/Rhaglenni Cyfalaf | 10,500 | 5,459 |
| | Mewnfuddsoddiad | 8,500 | 3,735 |
| | Ohonynt : | | |
| | Prosiectau Tramor Newydd | 2,500 | 930 |
| | | | |
| * | Meini Prawf IBB | | 6,714 |
| | | | |
| | **BUDDSODDIAD SECTOR PREIFAT** | £580m | £127m |
| | | | |
| | Datblygu Busnes/Rhaglenni Cyfalaf | £290m | £83m |
| | Mewnfuddsoddiad | £290m | £44m |
| * | Meini Prawf IBB | | £59m |
| | | | |
| | **NUTS II – GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD** | | |
| | | | |
| | Nifer swyddi | 12,500 | 6,363 |
| * | Canran | | 69% |
| | Datblygu Busnes/Rhaglenni Cyfalaf | 6,500 | 3,404 |
| | Mewnfuddsoddiad | 6,000 | 2,959 |
| | | | |
| | Buddsoddiad Sector Preifat | £330m | £59m |
| | Datblygu Busnes/Rhaglenni Cyfalaf | £165m | £26m |
| | Mewnfuddsoddiad | £165m | £33m |
| | | | |
| | **NUTS II – DWYRAIN CYMRU** | | |
| | | | |
| | Nifer swyddi | 6,500 | 2,831 |
| * | Canran | | 31% |
| | Datblygu Busnes/Rhaglenni Cyfalaf | 4,000 | 2,055 |
| | Mewnfuddsoddiad | 2,500 | 776 |
| | | | |
| | Buddsoddiad Sector Preifat | £250m | £68m |
| | Datblygu Busnes/Rhaglenni Cyfalaf | £125m | £57m |
| | Mewnfuddsoddiad | £125m | £11m |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **DATBLYGU BUSNES** | | |
| * | **Busnes a Sicrhawyd** | **£12.9m** | **£15.825m** |
| | | | ** |
| | **ADFER TIR** | | |
| * | **Ardal a adferwyd** | **49Ha** | **20.35Ha** |
| | **CYFADRAN TIR** | | |
| * | **Gwarediad Tir** | | |
| | **Hectar** | **31Ha** | **23Ha** |
| | **Gwerth** | **£17m** | **£12m** |
| | **Gofod llawr** | **16,000 m sg** | **14,000 m sg** |
| * | **COSTAU RHEDEG RHEOLAETH (uchafswm)** | **£28.844m** | **£13.402m** |
| | ***Dim yn Darged Strategol** | | |
| | ****Fel ym mis Awst** | | |

## ATODIAD 2

| **Prosiectau a Gwblhawyd fel ym Medi 2000** | | **Cyfadran** | **NUTS** | **BSP** | **SN** | **SA** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Planetree Printing | Powys | Canol | Dwyr. | £35,000 | 6 | 0 | 6 |
| The Burger Co | Powys | Canol | Dwyr. | £780,000 | 65 | 0 | 65 |
| Forsheda Cyf | Powys | Canol | Dwyr. | £1,100,000 | 30 | 0 | 30 |
| Kimberly-Clarke | Sir y Fflint | North | Dwyr. | £7,500,000 | 0 | 270 | 270 |
| Tokin UK Cyf. | Caerdydd | De | Dwyr. | £0 | 2 | 0 | 2 |
| Ellis & Buckle | Caerdydd | De | Dwyr. | £0 | 200 | 0 | 200 |
| Triplex – Williams Cyf | Caerdydd | De | Dwyr. | £2,000,000 | 0 | 203 | 203 |
| | | | **Cyfanswm Dwyr** | **£11,415,000** | **303** | **473** | **776** |
| Caws Dyffryn Aeron – Felinfach | Ceredigion | Canol | GORLL&C | £2,200,000 | 75 | 0 | 75 |
| Cycle Citi Corp | Gwynedd | Gog | GORLL&C | £1,500,000 | 20 | 0 | 20 |
| Soten UK Cyf | Merthyr Tudful | De | GORLL&C | £2,270,000 | 47 | 0 | 47 |
| Yarwood Cutting Concepts | Rhondda Cynon Taf | De | GORLL&C | £309,000 | 11 | 0 | 11 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| First Scientific Cyf | Blaenau Gwent | De | GORLL&C | £0 | 5 | 0 | 5 |
| Brook Thompson | Blaenau Gwent | De | GORLL&C | £1,540,000 | 42 | 23 | 65 |
| R-Tek Cyf | Merthyr Tydfil | De | GORLL&C | £550,000 | 14 | 29 | 43 |
| Reynolds Industries Cyf | Torfaen | De | GORLL&C | £0 | 15 | 0 | 15 |
| Eurocaps Cyf | Blaenau Gwent | De | GORLL&C | £422,000 | 9 | 0 | 9 |
| Lifton Excavators | Blaenau Gwent | De | GORLL&C | £2,340,000 | 53 | 13 | 66 |
| AB Automotive Electronics | Rhondda Cynon Taf | De | GORLL&C | £600,000 | 12 | 23 | 35 |
| One 2 One Personal Comm | Merthyr Tudful | De | GORLL&C | £12,530,000 | 810 | 0 | 810 |
| Lucas Varity TRW | Blaenau Gwent | De | GORLL&C | £1,200,000 | 0 | 36 | 36 |
| Kestrel (De Cymru) Cyf | Caerffili | De | GORLL&C | £1,400,000 | 111 | 0 | 111 |
| NTL | Abertawe | Gorll | GORLL&C | £0 | 500 | 0 | 500 |
| Manpower Services – Pont Cleddau | Sir Benfro | Gorll | GORLL&C | £2,400,000 | 600 | 0 | 600 |
| Athlons Cyf – Stad Dd Thornton | Sir Benfro | Gorll | GORLL&C | £817,000 | 141 | 0 | 141 |
| 3M'S – Gorseinon | Abertawe | Gorll | GORLL&C | £2,700,000 | 107 | 63 | 170 |
| Sea Baits – Port Talbot | C Nedd Port Talbot | Gorll | GORLL&C | £250,000 | 30 | 0 | 30 |
| HSBC – Llansamlet | Abertawe | Gorll | GORLL&C | £0 | 120 | 0 | 120 |
| Dewhirst – Parc Hendre | Abertawe | Gorll | GORLL&C | £0 | 50 | 0 | 50 |
| | | **Cyfanswm Gorll &C** | | **£33,028,000** | **2772** | **187** | **2959** |
| | | **Prif Gyfanswm** | | **£44,443,000** | **3075** | **660** | **3735** |